



### Lluniau'r mis

**Dryw penfflamgoch** ar *Pyracantha*, Nefyn, 6 Ionawr 2018 uchod

Bethan Vaughan Davies

Dydi'r penfflamgoch ddim yn aderyn cyffredin ond mae yna fwy ohonyn nhw yma ers i fflyd gyrraedd yn nghaeaf 1975

**Sgrech y coed** a chneuen fwnci. Meddai Alun Williams a dynnodd y llun:

Tynnwyd yng ngwarchodfa Coedlan Pwll Mawr, Chwefror 7ed. Roedd y pwll wedi rhewi ac roedd rhywun wedi taflu cnau mwnci ar y rhew - ymhen ychydig amser daeth sawl sgrech y coed i wledda. Mwy ar dudalen 4 am dair ffordd o ddal "pry'gen"



Un o brosiectau Cymdeithas Edward Llwyd

## Afancod newydd y Ddyfi



Thomas Hughes, Dolgellau, fy nghyd weithiwr, yw perchennog y lluniau yma. Wedi cael ambell sgwrs hefo fô am anturiaethau y creadur yma sydd yn gyfrifol am yr ôl dannedd sydd ar yr coed yma yn y lluniau hyn. Yr Afanc, Afon Leri, ardal Y Ddyfi.

Walter Hanks

Dilynwch a chyfranwch i  
"Cymuned Llên Natur" ar Facebook

## Mynd a dod ar y Llyfni



Wedi gweld ôl roeddwn yn adnabod fel Dyfrgi ar ambell garreg yn y fan hon wrth gerdded yr Afon Llyfni. Ac hefyd llwybr anifail arall yn dod i lawr at lan yr afon o'r coed gyferbyn ag yn edrych fel ei fod yn mynd i'r dŵr. Felly penderfynais osod camera cudd i ffilmio beth oedd yn mynd ymlaen yno. Yn y lluniau yma gwelwch y safle yn y dydd gyda dŵr yr afon yn uchel, wedyn gyda'r nos gyda lefel y dŵr wedi disgyn.

Y llwynog oedd yn gyfrifol am y llwybr o'r coed at yr afon, ag yn edrych fel mae wedi hen arfer. Mi ydwi yn amau fysa wedi croesi yr afon os fysa lefel y dŵr yn is. Dwi'n hoffi y ffordd mae'r llwynog yn neidio dros y cerrig bychan ag wedyn yn craffu i lawr yr afon o ben y garreg fwyaf yng nghanol y dŵr. Wrth gwrs dyfrgi oedd yn gyfrifol am yr ôl ar y cerrig yn yr afon a mi wnaeth ddod yn ôl i gael tynnu ei lun!

Walter Hanks

## Lili-lotws o Awstralia



Stamp hyfryd yn dangos "lili-lotws" wedi cyrraedd o Awstralia yn y dyddiau diwethaf. Cynigion am enw Cymraeg?

Dewch a chopiau o'ch stampiau natur o dramor i Llên Natur

## Trysorau Ceiri



20 August 1975, Porth Ysgo ger Rhiw.  
Golden Samphire  
(*Inula crithmoides*)

Dyma un o'r cannoedd o luniau gan y diweddar Athro T. Ceiri Griffiths.

Mae'n dangos *Inula crithmoides*, y cedowydd suddlon.

Enwau eraill arno yw:

Sampler y Geifr  
Cedowys Sugawl  
Cedowys Sugol  
Cedowys Sugol

Mae yna gannoedd (miloedd bron) o sleidiau Ceiri Griffiths. Os oes gennych ddi-ddordeb helpu creu archif ohonyn nhw rhwch floedd. Mwy o fanylion isod

266

### CAIS AM GYMORTH

Mae Prosiect Llên Natur wedi derbyn stôr o gannoedd o sleidiau o flodau (wedi eu tynnu cyn yr oes ddigidol) gan deulu Yr Athro T. Ceiri Griffiths, athro ffiseg ym Mhrifysgol Llundain, ar ôl ei farwolaeth y llynedd. Mae'r llun a'i gapsiwn ynghlwm yn enghraifft. Mae'r stôr hwn yn swmpus ac yn fwyteig o ofod ac mae Prosiect Llên Natur a'r teulu yn bryderus y bydd y casgliad hwn yn gorfod cael ei waredu. Mae'r sleidiau wedi eu cofnodi a'u trefnu yn fanwl ac yn cynnwys llawer o leoliadau a dyddiadau y gwelwyd nifer o flodau prin.

Er mwyn achub cymaint o werth â phosib o'r drysorfa hon rydym yn chwilio am rywrai sydd yn gallu ac yn barod i 1. ADNABOD Y SLEIDIAU MWYAF GWERTHFAWR, 2. RHESTRU'R CAPSIYNNAU ARNYNT, a 3. CHOPÏOR DELWEDDAU GYDA CHOPÏYDD SLEIDIAU (a ddarperir) (neu 4. GADW'R STÔR YN DDIOGEL AM Y TRO FEL ARCHIF)

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn helpu efo hyn wnewch chi ebostio ni ar [llennatur@yahoo.co.uk](mailto:llennatur@yahoo.co.uk)

### Mae'r hogia wedi deffro!





"Mae'r hogia wedi deffro!" meddai Alun. "Gwiberod Mynydd Hiraethog heddiw, Chwefror 20. Gwelais y cyntaf ar Chwefror 18."

Y nadroedd gwrywaidd fydd yn deffro o drwmwsg gyntaf. Hoffwn gywiro y frawddeg uchod, nid

yw nadroedd yn mynd i drwmwsg ond i "**brumation**," Oes term Cymraeg am hyn ?

## Gwenith sgwarnog Beti



Yn achlysurol dwi'n mynd i weld yr henoed yng Nghanolfan Dydd Waungoleugoed, ger Rhualt. Mae eu gwybodaeth am gefn gwlad a bywyd amaethyddol heb sôn am eu cof- yn anhygoel.

Ddoe yr oedd Beti- fydd yn

103 mewn wythnos- yn sôn am ei mam yn cyfeirio at 'wenith sgwarnog'. Meddyliais mai'r gair Cymraeg am 'harebells' ydoedd ond nid dyna oedd o. Rhyw fath o wair ydoedd, ond roedd hadau ar ei dop. Tybed glywsoch chi'r enw? O Fetws Gwerfyl Goch mae'n dod yn wreiddiol. Rhaid fod ei mam wedi ei geni tua'r 1880!" **Angharad Tomos**

Mae'r ateb yn hawdd mae'n debyg (os ydi Beti yn golygu yr un rhywogaeth a ni). Y planhigyn sydd ganddi mae'n debyg yw CRYDWELLT *Briza media*. Dyma'r enwau amgen arni: **arian byw, bywlys, dail crynu, eigryn, gwenith yr ysgyfarnog, hadau sgwarnog, Robin grynwr** (gw. Groeslon, Arfon yn ôl Harri Williams, saeth brown), **ÿd Sant Pedr (quaking grass)**. Dyma uchod lun y CRYDWELLT a map o'i ddisbarthiad yng Nghymru yn dangos Betws Gwerful Goch (saeth du) ar gyrion y dosbarthiad (dim rhyfedd bod Beti yn arddel hen enw naturiol am y gweirynt sef GWENITH SGWARNOG, a hithau wedi ei magu ochr yn ochr ag o!) . Mae'r creulys neu GWENITH SGWARNOG yn blanhigyn calchgar, hy. mae'n tyfu ar dir calchog neu fasaidd. Mae'n werth felly edrych ar hanesyn Beti o Betws Gwerful Goch mewn perthynas â'r calchfaen. Dyma holi'r daearegydd Math Williams. Dyma'i ateb:

"Creigiau Silwraidd sy ym Metws Gwerfil Goch, a mwyafrif rheini yn waddodion tywyll, llechog a ddyddodwyd mewn dwr dwfn. Ond mae calchfeini Carbonifferaidd nid nepell ger Llanelidan. Mae map mawr daeareg hefyd yn dangos outlier annisgwyl ac anodd ei esbonio i'r de o Fetws Gwerfil Goch, bron cyn belled â Cynwyd. Posib bod outliers tebyg eraill yn yr ardal nad ydynt yn dangos ar fap graddfa mawr. Hefyd, mae'n bosib bod rhannau o'r till rhewlifol sy' 'roll le fanco yn galchog os o darddiad lleol." **Math Williams**

Fel mae Math yn awgrymu, mae gwaddodion rhewlifol (*till*) yn gallu bod yn ddigon calchog i gynnal y gweirynt hwn- fel y mae twyni tywod llawn cregyn mâl hefyd wrth gwrs).

**OS YDYCH YN ADNABOD Y GWEIRYN HWN WRTH UN O'R ENWAU UCHOD (NEU ENW ARALL) DEUDWCH BETH A BLE.**

## Tair ffordd o ddal mwydyn



Gwarchodfa Madryn,  
Ionawr 30  
Llun: Alun Williams



<https://www.facebook.com/ann2000cynwru/videos/1638247629543804/>

Cae ysgol David Hughes,  
Môn  
Dominig Kervegant

Dyma dri aderyn sydd a'i fryd ar ddal pry' genwair: bronfraith, pioden fôr a gwylan benwaig. Mae nhw'n mynd o gwmpas hynny mewn ffyrdd yn holl wahanol.



<https://www.facebook.com/groups/871177946210845/permalink/713318212105818/>

Mŵd castell  
Caernarfon  
Duncan Brown

Mae'r **fronfraith** yn rhoi ei ben ar un ochr ac yn gwrando (neu graffu?) cyn neidio; mae'r **bioden fôr** yn turio ar hap (**fideo**) yn y pridd nes dod o hyd i un; ac mae'r **wylan benwaig** (**fideo**) yn enwog am badlo ei draed, i bob golwg i godi'r mwydod i'r wyneb.

## Oes 'da chi drap?

### TRAPWYR GWYFYNOD YR ARDD - CAIS

Mi welsoch chi bostiadau rheolaidd Bruce Hurst mae'n siwr yn grwp FB Cymuned Llên Natur. Wel, rydym yn chwilio am fwy o bobl i ymuno a chynllun GMS (Garden Moth Survey), yn fwyaf penodol yn y Gogledd-orllewin) - neu i hel y neges yma at rhywun 'dych chi'n meddwl fydd â diddordeb. Mi fydd yn rhaid cael trap gwyfynod ac ambell lawlyfr adnabod wrth gwrs, ond gallwn helpu dechreuwyd adnabod y gwyfynod wrth fynd ymlaen.

Fedrwch chi helpu os gwelwch yn dda, yn bersonol, neu trwy ddsbarthu'r cenadwri yma'n briodol. Gallwn anfon cyfarwyddiadau a ffurflen gweithredol i'r rhai sy'n dangos diddordeb - i roi blas pellach.

Gyda phob diolch i chi ymlaen llaw.

Cyfeiriad uniongyrchol: [llennatur@yahoo.co.uk](mailto:llennatur@yahoo.co.uk)

## Madarch downynder



Cawsom lwyth o luniau o ffyngau Awstralia oddiwrth Peter Edwards o Canberra (Wrecsam yn wreiddiol). Roedd llawer yn od o gyfarwydd i ni yng Nghymru gan ysgogi i ni feddwl bod sborau ffyngau mor fân mae nhw'n ymledu trwy'r byd. Dydi'r gwirionedd ddim mor syml! Dyma'r arbenigwr Ray Woods:

"Long distance transport of fungi by spores appears to be quite limited it is thought. One reason is susceptibility to UV light. Very few spores particularly in the upper air survive for more than a couple of days in sunlight. Then there is the complexity of mating strains-dozens in some fungi. A single spore may cross the Atlantic but then never get to meet a compatible strain to mate.

EWCH **YMA** I DDARLLEN MWY GAN RAY AC I WELD Y DRAFODAETH DIFYR A GAWSOM YNG NGRWP FACEBOOK **CYMNED LLÊN NATUR**

## Parabl y pry' lludw



Mae'r **pryfed lludw** (moch coed; woodlice) o gwmpas drwy gydol y flwyddyn. Nhw yw unig aelodau'r *Crustacea* sy'n byw ar dir. Dyma lun o beth a ddigwyddodd pan godais bry lludw (*Porcellio scaber*) oedd ar goll mewn ystafell molchi (maen nhw'n hoff o lefydd gwlyb) a'i r(h)oi ar garreg ar silff y ffenestr. Arhosodd ar y garreg am gryn amser. Ymhellach ymlaen deuthum o hyd i un arall, dipyn yn llai mewn maint (ac felly mae'n debyg rhywfaint yn fengach), a dyma fi'n rhoi honno/hwnnw ar y garreg wrth ymyl y llall. Arhosodd y ddau yno am dros hanner awr, yn 'siarad' â'i gilydd. Roeddynt yn rhyngweithio drwy'r amser, yn cael ymgom yn hytrach na chwffio na chweryla, am a wn i. Tybed beth oedd y gyfathrach rhyngddynt? Oeddynt yn digwydd bod yn dad a mab, neu fam a merch? Oedd yr hen bryf lludw'n cynnig cyngor i'r un iau? Ydy hyn yn digwydd yn rheolaidd ym myd y pryfed lludw? Os felly, ydy'r 'iaith' maent yn ei defnyddio yr un fath ymhobman, ynteu oes na 'Gymraeg pryfed lludw', 'Saesneg pryfed lludw', neu dafodieithiau gwahanol ar draws y wlad?

Dafydd Lewis

## Dail poethion yn cael mygyn bach!




Tynnodd Wil Williams y llun yma o ddanadl poethion (dynent) yn bwrw paill ar y 15 Medi 2013 yn ardal Bethel, Môn

## Llysiâu'r bystwn cyntaf



Roedd blodau gwyn cynta'r flwyddyn **LLYSIAU'R Y BYSTWN** *Erophila verna* yn tyfu'n "chwyn" ym maes parcio shopwyr yn Abergele bore yma (21 Chwefror, saeth melyn). Mae'n tyfu pob amser mewn lleoedd sych, llwm a di-faeth. Hefyd yn y llun, ar y dde, mae dail tri-byseddog y **TORMAEN TRIBYS** (saeth oren) fydd hefyd yn blodeuo yn fuan iawn, ac yn hoffi'r un cynefin yn union a'r llysiâu bystwn. Mae'r ddau yn gyffredin mewn twyni tywod - cynefin arall di-faeth a sych.

## Gwanwn y cwpannau robin goch



Bu'n flwyddyn dda i gwpannau robin goch. Daeth yn amlwg mai prif gyfnod eu hymddangosiad yw dechrau'r gwanwyn.

*Cette Pézize écarlate est une pézize hivernale qui se montre de décembre aux premiers jours du printemps (mars/avril), le plus souvent après une petite période de neige.*

Yn ôl y Ffrancwyr mae nhw angen mymryn o eira i roi hwb iddynt. Goelia'i!

Ewch yma i weld mwy

<https://www.facebook.com/groups/671177946410845/permalink/728927360635903/>

Cwpan Robin Goch, Gwarchodfa Coed Sied, Chwefror 8ed. Alun Williams


## Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd

(Rhif Elusen: 1126027)

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia Cysylltwch â ni trwy [llennatur@yahoo.co.uk](mailto:llennatur@yahoo.co.uk)

## Dyfodiad y gwanwyn: Ionawr

### crynhoad y tymheredd dyddiol, Waunfawr (1995-2018)



## Hynt a helynt traeth Y Bermo



Cryn dipyn o dywod wedi ei symud gan y storm ddiweddaraf ar hyd arfordir Arduwy (23 Ionawr)...

Barbara Grainger > Haf Meredydd



Hugh Roberts sydd wedi anfon yr olygfa hanesyddol hon wedi ei thynnu o Ddinas Oleu uwchben Y Bermo. Mae'n dangos yr holl dwyni tywod (saeth) lle mae parc hamdden y Sandancer heddiw ac adeiladau dirif gan gynnwys cartre'r henoed Hafod Mawddach. Meddai Hugh: "Dim ond Gwesty'r Marine sy'n sefyll i'r gorllewin o'r rheilffordd [yn y cerdyn post]". Fel y sylwodd Hugh am y gymhariaeth ar ôl y stormydd diweddar, "natur yn cymryd yn ôl".

Mae'r twyni diweddaraf wedi (ail-)ddatblygu o gwmpas Ynys y Brawd, ar twyni wedi eu hamlygu â saeth bellach yn dir sych ac adeiledig (am rwan!)

## Brwmstan Chwefror

Pili Pala cynta'r flwyddyn i mi - glöyn brwmstan ar gylchfan Ynysforgan, Morgannwg 20 Chwef 2018 Dewi Lewis

Mae cenhedlaeth cynta'r glöyn hwn (**melyn y rhafnwydd**) yn gynnar pob amser ond nid oes gennym yr un cofnod o fis Chwefror. Mae'n hollu ddibynnol ar ddau fath o rafnwydd.

Mae'r cofnod canlynol yn un o ddyrnaid o gofnodion o fis Mawrth, ac yn digwydd bod, yn un o'r cofnodion glöyn byw cyntaf erioed:

Selborne, Swydd Hampshire: 8 Mawrth 1766, Gilbert White ar arwydd yn Amgueddfa Selborne 2015 (cartref GW):  
*"The first known butterfly record for Hampshire was [ ] 250 years ago by Gilbert White, at Selborne, on 8th Mar 1766. His diary entry for that date in Flora Selborniensis reads: 'Saw ye first butterfly, P. sulphureus, a brimstone-coloured one: some people saw several of these, & several that were coloured with black spots; these are, I believe, P. urticae'.*

## Penllyn - pob tywydd



7 Chwefror

Hefin Owen



7 Chwefror

Hefin Owen



Y bore bach, Penllyn Llanberis

Hefin Owen



Hefin Owen


## Pont Esgob Dafydd a Ilif mawr lonawr



Afon Clwyd dros ei glannau, Ionawr 24. Y bont yw Pont Dafydd. Dyma ychydig o hanes y bont. Yn 1630 cododd Esgob Dafydd bont dros yr afon Clwyd, a bu pobl yn ei defnyddio am ddwy ganrif. Cadeirlan Llanelwy oedd canolbwynt y bywyd eglwysig yng ngogledd ddwyrain Cymru. Hon oedd y ffordd i Ffynnon Wenffrewi yn Nhreffynnon, felly roedd hi'n ffordd bwysig iawn. Lluniwyd y bont ar gyfer pobl a cheffylau, nid ar gyfer y llwythi trymion a ddaeth yn sgil y chwildro diwydiannol. Yn 1840 codwyd pont gryfach yn ei lle, ac yn 1969, pan drowyd yr afon er mwyn lledu'r A55, fe adawyd y bont garreg yma heb unrhyw afon yn llifo odani ac yng nghanol y caeau. Fel y gwelwch heddiw roedd dŵr afon Clwyd odani unwaith eto!

Enw llawn Esgob Dafydd oedd "Dafydd ab Owain ap Deio ap Llywelyn ap Einion ap Celynnin." **Alun Williams**

## Yr Ystlum - tamaid i aros pryd!



NEWYDD I'R LLYFRGELL ([www.llennatur.cymru](http://www.llennatur.cymru))  
Dyma erthygl a ymddangosodd yn Y Naturiaethwr yn 1989 sydd yn werth ei hatgfyodi:



Nifwl Orion (tua chanol y llun), ble mae sêr yn cael eu geni. 20 Chwefror 2018 Keith O'Brien

(ni dderbynwyd copi Llygad y Dydd mewn pryd y mis hwn)